

AtkinsRéalis



Ymgynghoriad Teithio Llesol Saundersfoot

Chwefror 2025

YMGYNGHORIAD TEITHIO LLESOL SAUNDERSFOOT

Hysbysiad

Mae'r ddogfen hon a'i chynnwys wedi'u paratoi ac wedi'u bwriadu'n unig fel gwybodaeth ar gyfer Ymgynghoriad Teithio Llesol Saundersfoot a'i defnydd mewn perthynas ag ef.

Nid yw AtkinsRéalis UK Limited yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw barti arall mewn perthynas â'r ddogfen hon a/neu ei chynnwys gan gynnwys beth sy'n deillio ohoni neu mewn cysylltiad â hi.

Mae gan y ddogfen hon 44 o dudalennau gan gynnwys y clawr.

Hanes dogfen

Teitl y ddogfen: Ymgynghoriad Teithio Llesol Saundersfoot

Cyfeirnod y ddogfen: 2.0

Adolygu	Disgrifiad o'r pwrpas	Wedi tarddu	Gwiriwyd	Adolygwyd	Awdurdodedig	Dyddiad
1.0	Dosbarthiad i'r cleient	HN/GR	SG	JS	AK	17/01/25
2.0	Rhifyn olaf	HN/GR	SG	JS	AK	04/02/25

Cymeradwyaeth cleient

Cleient	Cyngor Sir Penfro
Prosiect	Ymgynghoriad Teithio Llesol Saundersfoot
Rhif swydd	100112556
Llofnod/dyddiad cleient	



Cynnwys

1.	Rhagymadrodd	5
1.1	Pwrpas yr adroddiad	5
1.2	Strwythur yr adroddiad	5
2.	Trosolwg o'r prosiect	6
2.1	Sandy Hill Road.....	7
2.2	Stammers Road	8
2.3	Frances Road.....	10
3.	Dull ymgysylltu	11
3.1	Arolwg	11
3.2	Ymgysylltu wyneb yn wyneb	11
4.	Dadansoddiad o ymatebion.....	12
4.1	Arolwg	12
4.1.1	Dewis moddol a phwrpas y daith	12
4.1.2	Sandy Hill Road i Bentref Saundersfoot – LLCD	14
4.1.3	Stammers Road i Harbwr Saundersfoot – LLCD	22
4.1.4	Frances Road i Coppet Hall – LLCD	31
4.1.5	Cwestiynau cymdeithasol a demograffig.....	37
5.	Casgliadau o ddadansoddiad.....	41
6.	Camau nesaf	43

Byrddau

Tabl 5-1 - Casgliadau o ymatebion i'r arolwg	41
--	----

Ffigurau

Ffigur 2-1 - Cynllun Sandy Hill Road	7
Ffigur 2-2 - Cynllun Stammers Road	8
Ffigur 2-3 - Cynllun Frances Road.....	10
Ffigur 4-1 - Beth yw eich prif bwrpas ar gyfer ymweld â Saundersfoot?	13
Ffigur 4-2 - Cyfanswm y rhaniad moddol yn Saundersfoot	14
Ffigur 4-3 - A yw Sandy Hill Road yn ardal yr ydych yn ei defnyddio'n aml wrth gymudo i mewn ac o gwmpas Saundersfoot?.....	15
Ffigur 4-4 - Pa mor fuddiol yn eich barn chi fyddai LLCD yn y lleoliad hwn?	16
Ffigur 4-5 - Os caiff ei weithredu, a fyddai'r LLCD yn eich annog i gerdded/beicio'n amlach?	17



Ffigur 4-6 – Ystod oedran ymatebwyr i'r gwestiwn: a fyddai LLCD yn Sandy Hill yn eich annog i gerdded/beicio yn amlach.....	18
Ffigur 4-7 - Yn eich barn chi a fyddai'r cynnig yn welliant i ddiogelwch cerddwyr?	19
Ffigur 4-8 - Yn eich barn chi, a fyddai'r cynnig yn gwella hygyrchedd i bobl ag anghenion symudedd?	20
Ffigur 4-9 - Os ydych wedi ateb nac ydw neu'n ansicr i gwestiynau 9 i 11, dywedwch pam wrthym?.....	21
Ffigur 4-10 - A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar gynigion pentref Sandy Hill Road i Saundersfoot?	22
Ffigur 4-11 - A yw Stammers Road yn ardal yr ydych yn ei defnyddio'n aml wrth gymudo i mewn ac o gwmpas Saundersfoot?.....	23
Ffigur 4-12 - Pa mor fuddiol yn eich barn chi fyddai cylchfan fechan ar gyffordd yr Harbwr?	24
Ffigur 4-13 - Pa mor fuddiol yn eich barn chi fyddai LLCD yn y lleoliad hwn?	25
Ffigur 4-14 - Os caiff ei weithredu, a fyddai'r LLCD yn eich annog i gerdded/beicio'n amlach?	26
Ffigur 4-15 - Yn eich barn chi a fyddai'r cynnig yn welliant i ddiogelwch cerddwyr?	27
Ffigur 4-16 - Yn eich barn chi, a fyddai'r cynnig yn gwella hygyrchedd i bobl ag anghenion symudedd?	28
Ffigur 4-17 - Os ydych wedi ateb nac ydw neu'n ansicr i gwestiynau 17 i 19, dywedwch pam wrthym?.....	29
Ffigur 4-18 - A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar y cynnig i Stammers Road i Harbwr Saundersfoot?.....	30
Ffigur 4-19 - A yw Frances Road neu Coppet Hall yn ardal yr ydych yn ei defnyddio'n aml wrth gymudo i mewn ac o gwmpas Saundersfoot?	31
Ffigur 4-20 - Pa mor fuddiol yn eich barn chi fyddai LLCD yn y lleoliad hwn?	32
Ffigur 4-21 - Os caiff ei weithredu, a fyddai'r LLCD yn eich annog i gerdded/beicio'n amlach?	33
Ffigur 4-22 - Yn eich barn chi a fyddai'r cynnig yn welliant i ddiogelwch cerddwyr?	34
Ffigur 4-23 - Yn eich barn chi, a fyddai'r cynnig yn gwella hygyrchedd i bobl ag anghenion symudedd	35
Ffigur 4-24 - Os ydych wedi ateb na i gwestiynau 24 i 26, dywedwch pam wrthym?	36
Ffigur 4-25 - A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar gynigion Frances Road i Coppet Hall?	37
Ffigur 4-26 - Pa mor hen ydych chi?.....	38
Ffigur 4-27 - A oes gennych unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch sy'n para neu y disgwylir iddynt bara 12 mis neu fwy?	39
Ffigur 4-28 - Pa effeithiau ydych chi'n teimlo y byddai'r cynnig(cynigion) yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?	40



1. Rhagymadrodd

1.1 Pwrpas yr adroddiad

Mae Cyngor Sir Penfro (CSP) wedi ymgysylltu i gael adborth ar gynigion llwybrau teithio llesol newydd yn Saundersfoot. Rhestrir y cynigion newydd isod:

1. Stammers Road: Darparu llywbr cyd-defnydd rhwng Harbwr Saundersfoot a Stammers Road.
2. Sandy Hill Road: Darparu llywbr cyd-defnydd sy'n darparu cysylltiad uniongyrchol rhwng Saundersfoot a'r A478.
3. Frances Road: Creu llywbr cyd-defnydd yn cysylltu Traeth Coppet Hall â Phentref Saundersfoot

Yn yr adroddiad hwn, diffinnir llwybrau cyd-defnydd (LLCDs) fel llwybrau sydd wedi'u cynllunio i gynnwys symudiadau defnyddwyr sy'n cerdded, yn olwyno ac yn beicio, a diffinnir teithio llesol fel teithiau a wneir trwy gweithgaredd corfforol, megis cerdded, olwynion a beicio.

Ymgwymerwyd yr ymgysylltiad hwn fel rhan o'r ymgysylltu ehangach ar gyfer y gwelliannau teithio llesol ledled Sir Benfro. Roedd ymgysylltiad Saundersfoot yn cynnwys arolwg cymunedol, gweithdy ymgynghori cyhoeddus a sesiwn galw heibio. Roedd cyfnod ymgysylltu'r arolwg yn rhedeg am bedair wythnos o ddydd Mawrth 19^{eg} Tachwedd i ddydd Mawrth 17^{eg} Rhagfyr 2024. Dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus gyda gweithdy ddydd Mawrth 19^{eg} Tachwedd, gyda slotiau galw heibio rhwng 10:00 – 12:00, 13:00 – 16:00 a 18:30 – 20:00 yn The Coal Building, Harbwr Saundersfoot.

Mae'r adroddiad ymgysylltu hwn yn rhoi crynodeb o sut y cafodd yr ymgysylltiad cyhoeddus ei ymgymryd a sut y dadansoddwyd yr ymatebion a dderbyniwyd. Cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad hwn, ac amlinellir o sut y bydd CSP yn ystyried yr ymatebion yng ngham nesaf y prosiect. Mae'r adborth a dderbyniwyd hefyd wedi rhoi mewnwelediadau lleol gwerthfawr i'r Cyngor a fydd o fudd i'r prosiect hwn a phrosiectau eraill yn yr ardal leol.

1.2 Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad ymgysylltu hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Pennod 2 Trosolwg o'r prosiect:** cyd-destun y prosiect a chrynodeb o ymgysylltu blaenorol.
- **Pennod 3 Dull ymgysylltu:** dulliau ymgysylltu, hyrwyddo a deunyddiau, adborth, dadansoddi a hygyrchedd.
- **Pennod 4 Dadansoddiad o ymatebion:** themâu cyffredin sy'n codi o'r ymgysylltu.
- **Pennod 5 Casgliadau o ddadansoddiad:** canfyddiadau allweddol o'r ymgysylltu a'r camau gweithredu sy'n codi o'r adborth a ddadansoddwyd.
- **Pennod 6 Camau nesaf:** mae'n nodi'r camau nesaf yn dilyn ymgysylltu.



2. Trosolwg o'r prosiect

Mae Saundersfoot yn bentref mawr, wedi'i leoli i'r gogledd o Ddinbych-y-pysgod, gyda'r ddau anheddiad yn wasanaethu fel cyrchfannau poblogaidd i dwristiaid. Mae Saundersfoot yn gorwedd ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac ar Lwybr Arfordir Penfro. Mae ei leoliad ar yr arfordir yn golygu bod Saundersfoot ar lefel y môr o amgylch yr harbwr, tra bod pob llwybr allan o'r canol yn cynnyddu mewn drychiad.

Yn seiliedig ar gyfrifiad 2021, mae gan Saundersfoot boblogaeth o tua 2,400 o bobl. Mae tua 30% o'r boblogaeth dros 70 oed, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 15.6%, ond gyda 75.8% o'r boblogaeth mewn "iechyd da iawn" ac "iechyd da", mae hyn yn cyd-fynd yn fras â gweddill Cymru ar 78.6%.¹

Mae gan Saundersfoot boblogaeth economaidd anweithgar sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru, gyda 41.8% o'r boblogaeth mewn cyflogaeth a 56.0% o'r boblogaeth yn economaidd anweithgar, o gymharu â gyfartaledd Cymru o 53.5% mewn cyflogaeth a 43.5% yn economaidd anweithgar. O'r rhai sy'n economaidd weithgar, y dull mwyaf cyffredin o deithio i'r gwaith yw gyrru car neu fan (56.3%), yn dilyn gyda weithio o/yn bennaf o gartref (28.9%) ac ar droed (8.0%). Mae hyn yn uwchleuo pwysigrwydd y newid mewn patrymau gwaith ers COVID-19. Mae perchnogaeth car yn uchel yn Saundersfoot, gyda dim ond 13.7% o'r boblogaeth yn byw ar aelwyd heb gar neu fan (o gymharu â 19.4% yng Nghymru).

Mae CSP yn credu bod cyfle i ddarparu cysylltiadau newydd a mwy diogel o fewn rhwydwaith teithio llesol presennol Saundersfoot ac mae'r data demograffig ar gyfer Saundersfoot yn dangos bod potensial i annog newid moddol. Nod y llwybrau arfaethedig yw darparu cysylltedd i drigolion lleol ac ymwelwyr a fydd yn cyd-fynd yn dda â'r darpariaethau sydd eisoes ar gael. Mae rhai o'r llwybrau presennol, yn enwedig ar hyd Sandy Hill Road, yn annigol ar gyfer cerdded, beicio a phobl â phroblemau symudedd. Nod CSP yw creu amgylchedd mwy diogel i bawb ac annog pobl i deithio heb ddefnyddio eu cerbydau. Hoffai CSP greu llwybr strategol sy'n galluogi teithio i mewn ac o gwmpas Saundersfoot heb ddefnyddio cerbyd, a thrwy hynny leihau tagfeydd, parcio a phwysau traffig. Bydd annog y newid ymddygiad hwn nid yn unig yn arwain at ffordd o fyw iachach, ond hefyd yn ffordd wyrddach a rhatach o deithio.

Nod y cynigion yw:

- Gwella diogelwch ar y rhwydwaith teithio llesol.
- Annog teithio llesol cymdeithasol-gynhwysol ar gyfer pob math o siwrneiau gan gynnwys twristiaeth, hamdden, ysgol a gwaith.
- Creu amgylchedd mwy diogel ar gyfer defnyddwyr sy'n cerdded, olwynion a beicio a phobl â phroblemau symudedd.
- Gwella hygyrchedd ar gyfer defnyddwyr sy'n cerdded, olwynion a beicio a phobl â phroblemau symudedd.


¹ [Adeiladu proffil ardal wedi'i deilwra - Cyfrifiad 2021, SYG](#)



2.1 Sandy Hill Road

Mae cynllun Sandy Hill Road yn ymestyn ar hyd Sandy Hill Road i St Brides Lane, gan gysylltu â Stammers Road a chyswllt presennol Sandy Hill. Darperir trosolwg o'r cynllun yn Ffigur 2-1.

Ffigur 2-1 - Cynllun Sandy Hill Road



Mae'r gwelliannau'n cynnwys darparu parth cyd-defnydd ar hyd St Brides Lane a pharth cyd-defnydd unffordd tua'r gorllewin i'r gorllewin o gyffordd Bevelin Hall ar Sandy Hill Road, gan barhau i gyffordd Stammers Road. Parth cyd-defnydd yw lle mae'r ardal ffordd yn cael ei rannu'n ddiogel gan gerbydau, a defnyddwyr sydd yn cerdded, olwyno a seiclo. Mae'n bosibl na fydd unrhyw linellau ffordd, cyrbau neu gwter mewn parth cyd-defnydd i ddangos bod cerddwyr a cherbydau'n gyfartal. Rhaid i yrwy deithio ar gyflymder is o fewn parth cyd-defnydd gan y bydd defnyddwyr sy'n cerdded, yn olwynio ac yn beicio yn gallu symud yn rhydd o fewn yr ardal hon ac yn gallu croesi ar unrhyw bwynt. Nod y parthau hyn a'r system unffordd yw tawelu traffig a gwella llif cerbydau drwy'r ardal. Yn ogystal, lle bo angen, cynigir lledu'r ddarpariaeth troedffordd bresennol ar hyd y llwybr. Awgrymir triniaethau ymestyn allan ar gyffordd Bevelin Hall i arafu traffig a darparu man croesi mwy diogel i ddefnyddwyr gerdded, olwynion a seiclo, tra ar gyffordd Stammers Road / Sandy Hill Road, cynigir croesfan uchel.

I'r gorllewin o gyffordd Stammers Road / Sandy Hill Road a'r groesfan bwrdd uchel, cynigir llwybr di-dor (o leiaf 1.8m o led, ond yn amrywio o ran lled) gyda gwahaniad rhwystr Orca. Byddai hyn wedyn yn cysylltu â LLCD newydd ei adeiladu ar hyd Sandy Hill Road (c3.0m o led am tua 300m). Byddai rhan o'r llwybr hwn o fewn yr ystâd newydd oddi ar Sandy Hill Road ac yn cael ei gyflawni gan y datblygwr². Byddai adeiladu'r llwybr hwn yn darparu cyswllt


² [Bargen i ddod â chartrefi newydd i Saundersfoot wedi'i chwblhau |](#)

uniongyrchol rhwng Saundersfoot a'r A478, gan wasanaethu Parc Gwyliau Fferm Broadfield a Sea View Cottages (gyda throedffordd 1.9m) a beicio ar y stryd yn yr ardal hon. Byddai mesurau megis cyrbau wedi'i adeiladu allan, yn cael eu gosod i dawelu cerbydau sy'n allanu, yn ogystal â darparu byrddau uwch a chulhau cyffyrdd ym Mharc Sandy Hill i wella mannau croesi.

2.2 Stammers Road

Nod cynllun Stammers Road yw darparu LLCD rhwng Harbwr Saundersfoot a Stammers Road ar gyfer cerdded, olwynion a beicio diogel. Darperir trosolwg o'r cynllun yn Ffigur 2-2.

Ffigur 2-2 - Cynllun Stammers Road



Cynigir gwelliannau amryfal ar hyd Cambrian Place. Mae hyn wedi'i gynnwys fel rhan o gynllun Stammers Road oherwydd, yn ystod COVID-19, roedd yr amgylchedd tawelach wedi caniatáu defnyddio'r briffordd gyhoeddus i ddarparu mwy o seddi awyr agored i fusnesau lleol a chreu ardal diwylliant caffi. Cafodd hyn dderbyniad da gan drigolion lleol ar y pryd pan oedd llif y traffig yn sylweddol is. Mae'r cynigion presennol ar hyd Cambrian Place yn ceisio

adfer yr amgylchedd tawelu traffig hwnnw, er mwyn galluogi symudiadau cerdded, olwynion a seiclo mwy diogel drwy'r ardal hon, tra'n parhau i alluogi llif traffig drwy'r pentref.

Ar hyd Cambrian Place, cynigir y gwelliannau canlynol:

- I ddangos trawsnewid i amgylchedd arwyneb cyd-defnydd, mae bolard ardal parth cyd-defnydd yn darparu llwybr cerbydau trwy blannwyr / triniaethau tirlunio posibl yn y pwyntiau cyffordd.
- System llif traffig unffordd (rhwng y Stryd Fawr a Stryd Milffwrdd), gan gadw ffordd gerbydau 3.6m.
- Troedffyrdd ehangach ac ardal parth cyd-defnydd rhwng defnyddwyr sy'n cerdded, yn olwyno ac yn beicio, tra'n cadw llwybr cerddwyr ar wahân ar yr ochr ddwyreiniol.
- Croesfan gyfochrog gyda darpariaeth adeliadu-allan i feicwyr.
- Y posibilrwydd o adfer diwylliant caffi, gan ddarparu ardal dynodedig ar gyfer seddi awyr agored.
- Ffurfioli dwy safle tacsis, y gellir eu defnyddio hefyd ar gyfer llwytho.
- Cynllun i arwain at gyffordd i ei hailadeiladu yn Harbwr Saundersfoot.

Yna cynigir y gwelliannau hyn arwain i Stammers Road. Cynigiwyd ailfodelu gyffordd gylchfan fach bresennol ym mynedfa'r Harbwr sy'n arwain i Cambrian Place, gan ddarparu croesfan sebra ar bob braich, ac eithrio Cambrian Place. Ar hyd Stammers Road, mae'r cynigion yn cynnwys ailadeiladu'r troedffordd presennol i safonau LLCD (rhwng 2.5m - 3.5m ar hyd y llwybr) a chulhau'r ffordd gerbydau i 5m. Byddai'r groesfan reoledig bresennol yn cael ei thynnu a'i disodli gan y croesfannau sebra ar y gyffordd wedi'i hailfodelu. Byddai croesfannau twcan newydd yn cael eu gosod, gan gynnwys hefyd ffurfio croesfan reoledig uwch yn yr Angorfa. O ran parcio, mae'r safle tacsis a'r man llwytho i gael eu hadleoli, gyda mannau parcio tymor byr yn cael eu darparu.


Mae'r cynigion yn parhau ar Old Stammers Road, ar ôl cyffordd y B4316. Cynigir lledu'r lôn gerbyd lleol ar y gyffordd, a darperir LLCD ar ochr ogleddol Old Stammers Road. Mae croesfan arfaethedig gyda thriniaeth ymwthiol wedi ei cynnig, gyda cherbydau i ildio tua'r gogledd, cyn i'r llwybr barhau ar yr ochr ddeheuol,. Nod y gwelliannau hyn yw gwellhau'r LLCD i lwybr troed a lôn gerbydau St Brides Lane, gan gysylltu â'r *hawliau tramwy cyhoeddus* a adeiladwyd yn 2022/2023 rhwng Stammers Road a St Brides Lane, a chynyddu cysylltedd rhwng craidd y pentref a Sandy Hill Road fel rhan o'r llwybr strategol ehangach. Mae manteision eraill yn cynnwys gwell arwyneb ar droedffyrdd a lôn gerbyd ar hyd y llwybr.



2.3 Frances Road

Nod cynllun Frances Road yw darparu LLCD parhaus ar gyfer cerdded, olwynion a seiclo rhwng Coppet Hall a Saundersfoot. Darperir trosolwg o'r cynllun yn Ffigur 2-3.

Ffigur 2-3 - Cynllun Frances Road



Mae'r gwelliannau arfaethedig yn cynnwys ffurfio LLCD 2.5 – 3.0m ar hyd Frances Road, o'r gyffordd â Wogan Terrace i gyffordd maes parcio Coppet Hall, gan gadw ffordd gerbyddau yn 5.0m. Bydd arglawdd carreg newydd gyda gwrych yn cael ei adeiladu ar hyd Frances Road. Mae gwelliannau'n cynnwys gosod nodweddion arafu traffig, gan gynnwys ildio ffordd tua'r de, a adeiladwyd tua 100m i'r gogledd o fynedfa Scar Farm Holiday Park. Ar gyffordd Wogan Terrace / Frances Road, cynigir ail-lunio'r gyffordd a darparu troedffordd ehangach i'r ysgol.

Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys mynedfa newydd â ramp i gerddwyr i'r parc gwyliau, mynediad i'r cae gyda thriniaeth mynediad wedi'i godi, a gwell draeniad ar hyd y llwybr. Mae'n bwysig nodi na fydd unrhyw gulhau ar Frances Road yn gysylltiedig â'r cynllun hwn; mae'r LLCD arfaethedig i'w leoli y tu ôl i'r clawdd ar ochr orllewinol Frances Road ac mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda thirfeddianwyr lleol er mwyn hwyluso'r gwaith hwn.

3. Dull ymgysylltu

Diben y rownd hon o ymgysylltu oedd ymgysylltu'n ffurfiol â'r gymuned leol ar y llwybrau arfaethedig ar gyfer gwelliannau teithio llesol, fel rhan o'r ymgysylltu ehangach ar gyfer gwelliannau teithio llesol ledled Sir Benfro. Nod yr ymgynghoriad cyhoeddus oedd casglu adborth ar y newidiadau arfaethedig, gan geisio ymofyn barn ar hygyrchedd a chysylltedd yn Saundersfoot.

3.1 Arolwg

Er mwyn deall barn pobl yn well ar sut i fireinio dyluniad y cynllun, datblygodd CSP arolwg a gyhoeddwyd ar-lein a'i hyrwyddo yn y gymuned. Cynhaliwyd yr arolwg trwy ddolen o wefan CSP i arolwg Microsoft Forms, gyda chopïau papur o'r dyluniadau a'r arolwg ar gael ar gais. Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg yn y ddau fformat, ac roedd copïau wedi'u postio o'r dyluniadau a'r arolwg ar gael ar gais.

Nod cwestiynau'r arolwg oedd casglu adborth ar y cynlluniau didol. Roedd yr arolwg yn cynnwys sawl cwestiwn agored a chaeedig ar y cynion osodwyd fel, pa mor aml yr oedd unigolion yn teithio ar hyd pob llwybr, a oedd unigolion yn teimlo y byddai'r llwybrau arfaethedig yn gwella hygyrchedd, ac a oeddent yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig.

Cynhaliwyd yr arolwg am gyfnod o bedair wythnos o ddydd Mawrth 19^{eg} Tachwedd i ddydd Mawrth 17^{eg} Rhagfyr 2024.

3.2 Ymgysylltu wyneb yn wyneb

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus gyda sesiynau galw heibio ddydd Mawrth 19^{eg} Tachwedd, rhwng 10:00 – 12:00, 13:00 – 16:00 a 18:30 – 20:00 yn The Coal Building, Harbwr Saundersfoot. Roedd gan bob sesiwn gynrychiolwyr o CSP yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau a gododd. Roedd ymwelwyr i bob sesiwn galw heibio yn gallu edrych ar gopïau papur o'r dyluniadau, a ddangoswyd ar fyrddau stori yn y digwyddiad. Cafodd unigolion a fynychodd y sesiynau galw heibio gyfle i lenwi copïau papur o'r arolwg yn ogystal â gadael unrhyw sylwadau ychwanegol drwy'r blwch sylwadau. Mynychodd tua 95 o bobl y sesiwn galw heibio drwy gydol y dydd.



4. Dadansoddiad o ymatebion

4.1 Arolwg

Derbyniwyd 128 o ymatebion i'r arolwg hwn trwy ymatebion ar-lein ac ymatebion derbyniwyd ar copïau papur. Hysbysebwyd yr arolwg ar-lein rhwng dydd Mawrth 19^{eg} Tachwedd i ddydd Mawrth 17^{eg} Rhagfyr 2024, a chodwyd hysbysiadau cyhoeddus o amgylch Saundersfoot.

Mae'n bwysig nodi, er bod 128 o ymatebwyr unigol wedi ateb cwestiynau'r arolwg, yn yr adran ganlynol, mae graffiau gydag ymatebion dros 128 yn cynnwys ymatebion i gwestiynau lluosog *wedi'u cyfuno*. Yn ogystal, efallai na fydd canrannau mewn graffiau yn adio i 100% oherwydd anghysondebau dibwys talgrynnu.


Roedd y cwestiynau yn yr arolwg i gyd yn ddewisol i ymatebwyr eu hateb, gan gynnwys y set o gwestiynau *Amdanoch Chi*. Mae'r holl ymatebion wedi'u hystyried yn adborth yr arolwg.

4.1.1 Dewis moddol a phwrpas y daith

Nod cwestiynau cyntaf yr arolwg oedd casglu gwybodaeth am sut roedd ymatebwyr yn teithio o amgylch Saundersfoot a diben eu teithiau. Ar gyfer y cwestiynau dewis modd a chwestiynau pwrpas taith, caniatwyd i ymatebwyr ddewis ymatebion lluosog, ac felly mae cyfanswm yr ymatebion yn fwy na nifer yr ymatebwyr. Mae Ffigur 4-1 yn dangos yr ymatebion i brif bwrpas ymweld â Saundersfoot.



Ffigur 4-1 - Beth yw eich prif bwrpas ar gyfer ymweld â Saundersfoot?




Mae mwyafrif o'r ymatebwyr yn drigolion Saundersfoot (66%), yn dilyn gyda 29% sy'n teithio i gael mynediad i siopau a gwasanaethau (19%) neu waith (10%).

Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr sut y maent yn cymudo i mewn ac o gwmpas Saundersfoot ar hyn o bryd ar gyfer y dibenion canlynol:

- Gwaith
- Ysgol
- Ymweld â siopau a gwasanaethau
- Dibenion eraill

Mae Ffigur 4-2 yn dangos crynodeb o'r rhaniad moddol ar gyfer gwahanol fathau o deithiau yn Saundersfoot.

Ffigur 4-2 - Cyfanswm y rhaniad moddol yn Saundersfoot



Wrth gyfuno'r ymatebion i'r cwestiynau hyn, gyrru yw'r dull mwyaf cyffredin o deithio o fewn Saundersfoot (46%). Mae teithio llesol hefyd yn ddull poblogaidd o deithio, sef 44% o'r ymatebion i'r cwestiynau hyn i gyd (38% yn cerdded a 6% yn beicio). Mae defnydd bws yn cyfrif am 7% o deithiau o fewn Saundersfoot. Mae hyn yn dangos bod teithio llesol yn boblogaidd yn Saundersfoot ac efallai y bydd cyfle i ragori gyrru fel y dull mwyaf poblogaidd o deithio os darperir llwybrau teithio llesol o ansawdd uwch.


4.1.2 Sandy Hill Road i Bentref Saundersfoot – LLCD

Roedd y set ganlynol o gwestiynau yn gofyn am adborth ar gynigion Sandy Hill Road.

Mae Ffigur 4-3 yn dangos ymatebion i'r cwestiwn a yw Sandy Hill Road yn ardal y mae ymatebwyr yn ei defnyddio'n aml wrth gymudo i mewn ac o amgylch Saundersfoot.


Ffigur 4-3 - A yw Sandy Hill Road yn ardal yr ydych yn ei defnyddio'n aml wrth gymudo i mewn ac o gwmpas Saundersfoot?

A yw Sandy Hill Road yn ardal yr ydych yn ei defnyddio'n aml wrth gymudo i mewn ac o gwmpas Saundersfoot? (Ymateb Cyfanswm: 125)



Mae mwyafrif yr ymatebwyr (68%) yn defnyddio Sandy Hill Road yn aml. Felly, mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn bennaf gan pobl â phrofiad o ddefnyddio Sandy Hill Road. Mae Ffigur 4-4 yn dangos pa mor fuddiol y byddai LLCD ar Sandy Hill Road ym marn ymatebwyr.

Ffigur 4-4 - Pa mor fuddiol yn eich barn chi fyddai Llwybr Cyd-Defnydd (LLCD) yn y lleoliad hwn?



Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hyn yn fwy negyddol, gyda 50% yn ymateb naill ai "Ddim yn fuddiol o gwbl" neu "Ddim yn fuddiol iawn" o gymharu â 31% yn dewis "Buddiol iawn" neu "Buddiannol". Fodd bynnag, roedd 19% o ymatebwyr yn "Niwtral" ar effaith y cynigion. Mae hyn yn dangos, er nad yw'r rhai sydd â phrofiad o ddefnyddio Sandy Hill Road yn gyffredinol yn meddwl y byddai LLCD yn fuddiol, mae'r un nifer o ymatebwyr yn credu y byddai'n fuddiol neu nad ydynt yn gallu gwneud sylw ar hyn o bryd.


Gofynnodd yr arolwg dri chwestiwn caeedig olaf ar LLCD arfaethedig Sandy Hill Road:

- Os caiff ei weithredu, a fyddai'r LLCD yn eich annog i gerdded/beicio'n amlach?
- Yn eich barn chi, a fyddai'r cynnig yn welliant i ddiogelwch cerddwyr?
- Yn eich barn chi a fyddai'r cynnig yn gwella hygyrchedd i bobl ag anghenion symudedd?

Mae Ffigur 4-5 yn dangos atebion yr ymatebwyr i'r cwestiwn: a fyddai'r llwybr yn eu hannog i gerdded neu feicio'n amlach.


Ffigur 4-5 - Os caiff ei weithredu, a fyddai'r LLCD yn eich annog i gerdded/beicio'n amlach?

Os caiff ei weithredu, a fyddai'r LLCD yn eich annog i gerdded/beicio'n amlach? (Ymateb Cyfanswm: 123)



Yn gyffredinol, nid yw ymatebwyr yn credu y byddai'r LLCD yn eu hannog i gerdded/beicio'n amlach (atebodd 65% "nac ydw" o gymharu â 29% a atebodd "ie"). Er mai dim ond canran fach o ymatebwyr a ddewisodd "ie", mae'n dangos y gallai'r cynigion annog rhywfaint o newid moddol. Mae Ffigur 4-6 yn dangos yr ystodau oedran ar gyfer ymatebwyr i'r cwestiwn blaenorol.


Ffigur 4-6 – Ystod oedran ymatebwyr i'r gwestiwn: a fyddai LLCD yn Sandy Hill yn eich annog i gerdded/beicio yn amlach



Mae'r canlyniad yn dangos bod ymatebwyr gyda ystodau oedran 25-34, a 75+ yn fwy tebygol o newid moddau teithio yn seiliedig ar weithrediad LLCD, gyda 60% a 47% yn ateb "ie" yn y drefn honno. Mae ymatebwyr rhwng yr oeddrannau 65-74, 45-54 a 35-44 yn lleiaf tebygol o newid moddau teithio, gyda 7%, 25% a 29% yn y drefn honno yn ateb "ie". Mae'r data demograffig yn awgrymu nad yw newid moddol i gerdded, olwyno a beicio yn gyfyngedig i ymatebwyr iau, gyda'r rhai dros 75+ yn ymateb yn gadarnhaol i weithrediad y LLCD. Dangosir sylwadau testun rhydd y cwestiwn yn Ffigur 4-9, sydd yn awgrymu rhesymau pellach pam y gallai ymatebwyr ateb "na", gan gynnwys y risg o wrthdaro rhwng defnyddwyr a phryderon ynghylch graddiant.

Mae Ffigur 4-7 yn dangos temiladau ymatebwyr am y cynnig i wella diogelwch cerddwyr ar hyd y llwybr.

Ffigur 4-7 - Yn eich barn chi a fyddai'r cynnig yn welliant i ddiogelwch cerddwyr?




Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn fwy cadarnhaol na'r un blaenorol, gyda 45% yn cytuno y byddai'r cynnig yn gwella diogelwch cerddwyr o gymharu â 39% yn dweud na fyddai. Er bod yr ymatebion blaenorol yn awgrymu na fydd y cynnig yn annog newid moddol mawr, awgrymir yr ymatebion i'r cwestiwn hwn bod i'r rhai sy'n defnyddio'r llwybr ar hyn o bryd, y byddai'r cynnig yn arwain at fudd diogelwch.

Mae Ffigur 4-8 yn dangos yr ymatebion i'r cwestion a fyddai'r cynnig yn gwella hygyrchedd i bobl ag anghenion symudedd?.

Ffigur 4-8 - Yn eich barn chi, a fyddai'r cynnig yn gwella hygyrchedd i bobl ag anghenion symudedd?


Yn eich barn chi, a fyddai'r cynnig yn gwella hygyrchedd i bobl ag anghenion symudedd? (Ymateb Cyfanswm: 123)



Ymatebodd 49% o bobl na fyddai'r cynnig yn gwella hygyrchedd i'r rhai ag anghenion symudedd, tra dywedodd 34% y byddai'r cynnig yn gwella hygyrchedd.

Er mwyn casglu rhagor o wybodaeth am y rhesymau pam yr atebodd ymatebwyr "na" neu "ansicr" i unrhyw un o'r tri chwestiwn blaenorol, rhoddwyd cwestiwn testun rhydd iddynt. Mae Ffigur 4-9 yn crynhoi'r themâu allweddol a gododd o'r ymatebion testun rhydd.

Ffigur 4-9 - Os ydych wedi ateb nac ydw neu'n ansicr i gwestiynau 9 i 11, dywedwch pam wrthym?



Y thema fwyaf cyffredin i'r ymateb hwn oedd materion graddiant (21%), ac yna ymatebwyr yn methu gweld budd o'r cynllun (19%) a phryderon ynghylch gwrthdaro rhwng defnyddwyr (17%). Mae'n werth nodi bod yr ymatebion i'r cwestiwn testun rhydd hwn gan ymatebwyr a bleidleisiodd "yn erbyn" neu "ansicr" mewn cwestiynau blaenorol ac, felly, yn fwy tebygol o gynnwys elfennau negyddol i'r cynigion.


Teimlai cyfran fawr o'r ymatebwyr a adawodd ymatebion i'r cwestiwn hwn fod y graddiant yn fater difrifol o ran cynyddu'r defnydd o'r llwybr. Nododd yr ymatebion eu bod yn teimlo bod y llwybr yn anodd i'r rhai ag anghenion symudedd a, chan nad yw'r cynigion yn gallu mynd i'r afael â'r graddiant, na fyddai'n mynd i'r afael ag unrhyw broblemau. Mae hyn yn gynnwys ddefnyddwyr sydd yn olwyno neu'r rhai na allant gerdded ymhell i gael mynediad i'r pentref. Fodd bynnag, efallai y bydd y LLCD arfaethedig yn annog defnyddwyr eraill, mwy abl, i newid i gerdded, olwyno neu feicio drwy'r pentref. Byddai hyn felly'n helpu leihau tagfeydd ac rhyddhau mannau parcio i'r rhai â phroblemau symudedd, sydd yn cynnig mynediad haws i graidd y pentref.

Arweiniodd graddiant y llwybr hefyd at sylwadau pellach ynghylch gwrthdaro defnyddwyr ar LLCD. Teimlai'r ymatebion y byddai'r graddiant i lawr yr allt yn arwain at feicwyr olwyno rhydd i teithio cyflymder tebyg i geir ar y ffordd, a felly y dylent aros ar y ffordd gerbydau. Nododd yr ymatebion hefyd bryderon diogelwch yn ymwneud â'r gwahaniaeth mewn cyflymderau rhwng defnyddwyr cerdded, olwyno a beicio, gan nodi y byddai angen i led y llwybr allu darparu ar gyfer pob defnyddwyr. Nododd eraill y gallai'r graddiant fod yn annymunol i feicwyr yn gyfan gwbl, gan ddisgwyl y byddai'r llwybr yn cael galw cyfyngedig. Er bod topograffi Saundersfoot yn her, disgwylir y bydd beicwyr yn gallu rheoli eu cyflymder yn effeithiol wrth ddefnyddio'r briffordd gyhoeddus, gyda rheolaeth lwyr dros eu beiciau.

Derbyniwyd sylwadau ymhellach mewn perthynas â ymatebion *gweld dim budd o'r cynllun*, gyda sawl ymatebion yn nodi bod y llwybrau presennol yn ddigonol ar gyfer y galw.

Rhoddwyd cyfle hefyd i ymatebwyr roi unrhyw sylwadau pellach mewn ail gwestiwn testun rhydd. Dangosir y themâu mwyaf cyffredin yn Ffigur 4-10.

Ffigur 4-10 - A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar gynigion pentref Sandy Hill Road i Saundersfoot?



Er dim ond 57 o ymatebion dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 32% o'r sylwadau hyn yn cefnogi'r cynigion. Mae hyn yn gyfran sylweddol uwch na'r themâu mwyaf cyffredin nesaf o *weld dim budd o'r cynllun* (12%) a bod y *cynigion yn wastraff adnoddau* (11%).

O'r ymatebwyr oedd yn cefnogi'r cynigion, nodwyd *cynnydd mewn diogelwch* ar gyfer defnyddwyr sy'n cerdded, olwyno a beicio o ganlyniad y cynig. Awgrymodd y sylwadau hyn y byddent yn defnyddio'r llwybr yn llawer mwy nag ar hyn o bryd. Croesawyd y cynigion ar gyfer croesfannau ychwanegol, gyda llawer o'r sylwadau'n teimlo y byddai'r cynigion yn arwain at gynydd yn nifer yr ymwelwyr i'r pentref, gan helpu i hybu'r economi leol. Nododd un sylw y byddai angen sicrhau nad yw ceir yn parcio ar ymyl y palmant i gadw lled llawn y llwybr tra bod dau arall yn nodi'r angen i'r llwybr gael ei oleuo.

Ymatebodd saith o ymatebwyr na allent weld unrhyw fudd o'r cynllun, gan adleisio teimladau tebyg i'r cwestiwn blaenorol. Nododd un sylw fod y gostyngiad yn y ffordd gerbydau i 5m mewn rhai mannau yn rhy gul ar gyfer traffig dwy ffordd, tra bod un sylw arall yn teimlo mai dim ond cyfnod prysur yr haf fyddai'r cynigion o fudd.

4.1.3 Stammers Road i Harbwr Saundersfoot – LLCD


Roedd y set ganlynol o gwestiynau yn ymwneud â'r cynigion ar gyfer cynllun Stammers Road.

Mae Ffigur 4-11 yn dangos ymatebion i'r cwestiwn a yw Stammers Road yn ardal y mae ymatebwyr yn ei ddefnyddio'n aml wrth gymudo i mewn ac o gwmpas Saundersfoot.



Ffigur 4-11 - A yw Stammers Road yn ardal yr ydych yn ei defnyddio'n aml wrth gymudo i mewn ac o gwmpas Saundersfoot?


A yw Stammers Road yn ardal yr ydych yn ei defnyddio'n aml wrth gymudo i mewn ac o gwmpas Saundersfoot? (Ymateb Cyfanswm: 122)



Mae mwyafrif o'r ymatebwyr (78%) yn defnyddio Stammers Road yn aml. Felly, mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn bennaf gan y rhai sydd â phrofiad o ddefnyddio Stammers Road.

